

Welcome

Dear AIC Members,

Welcome to the Spring/Summer 2025 edition of AIC Cymru Journal, bringing you key updates on the issues, policies, and insights specific to Welsh agriculture.

At the beginning of 2025, the AIC Cymru Committee experienced notable changes, as our terms of reference required a succession in the positions of Chair and Vice Chair.

AIC Cymru is also focused on the Sustainable Farming Scheme, which is undergoing crucial developments. The scheme's rules and payment levels are pivotal to Welsh agricultural policy, with recent meetings showing progress after contentious actions were removed. The Welsh Government's communication roadshows and industry collaboration are expected to enhance the scheme's acceptance.

In this issue you will find updates on the Sustainable Farming Scheme, policy developments, events, and AIC Cymru activities.



Michael Muncey
AIC Cymru Policy Manager

Mr Davies' leadership is set to further strengthen AIC Cymru's mission to work in support of modern, sustainable, commercial agriculture and represent businesses in the Welsh agri-supply industry.

AIC Cymru committee leadership changes

The start of 2025 brought changes to the AIC Cymru Committee as our terms of reference meant succession in the AIC Cymru Chair and Vice Chair. Time flies given the two-year rotation and the inception of AIC Cymru.

AIC Cymru has elected Alister Davies as its new Chair. He was voted in by Members at the AIC Cymru Annual General Meeting on 30 January 2025 and will serve a two-year term.

Mr Davies is Beef and Sheep Commercial Manager at ForFarmers and succeeds Gareth Davies, the former Chief Executive of Wynnstay Group, who recently completed his tenure as Chair.



Alister Davies (left) with Micheal Muncey (right).

Continued on page 2 

Commenting on his appointment, Mr Davies said: "I am honoured to take on the role of Chair at AIC Cymru and look forward to continuing our vital work on behalf of the Welsh agri-supply industry. I would like to extend my sincere thanks to Gareth Davies for his leadership and dedication. His instrumental role in establishing AIC Cymru has ensured Welsh agri-supply businesses have a stronger, united voice in an ever-evolving agricultural landscape." Additionally, Claire Ebdy, from Northwest Farmers, joins the committee.



Michael Muncey (left) with Gareth Davies (right)

The Sustainable Farming Scheme

Of paramount interest to AIC Cymru Member businesses is the continued development of the Sustainable Farming Scheme. Scheme rules and payment levels remain the biggest change to Welsh agricultural policy and are at the forefront of farming unions and businesses where the need to get policy "right" has never been so crucial. To this end, AIC Cymru was delighted to be joined by Mark Alexander, Welsh Government SFS lead, at our last meeting in April to have an informal Q&A update.

Currently, behind the scenes, meetings continue at pace which are more productive and cooperative since the most contentious universal action of the 10% tree cover has been removed. The scheme is now down to 12 universal actions, from 17. Additionally, the scheme is also now down to 2 hectares for farm participation as a single-entry form. Compliance on actions being undertaken will be more tick-box, ensuring outcomes are being met rather than requiring evidence submission.

The ongoing economic impact assessment will hopefully be published in June. The aim then is communication of economic impact assessment, scheme methodology, both universal as well as optional and collaborative, and payment methodology and rates. This has to be coordinated, provided in both English and Welsh, and will require farming union support if the scheme is to be accepted.

Welsh Government communication roadshows are planned. AIC suggested a communication/Teams meeting for the agricultural supply sector as we can be a positive communication vehicle if we broadly accept the scheme. We believe better outcomes can be achieved as we have trusted advisers going down the farm drive through both agronomists and feed advisers. An industry SFS leaflet was also suggested.

The expectation is that announcements are likely to be made during the Royal Welsh Show in July.



From left, Richard Lewis, Vice Chair AIC Cymru; David Evans; Claire Ebdy; Gareth Davies; Alister Davies, Chair AIC Cymru; Dan Downes; Mark Alexander, Deputy Director Land Reform Welsh Government; Ed Barker, AIC Policy Manager; Tom Edwards; Gary Davies, and Chris Thomas.

AIC Cymru 'frustrated' by the Welsh Government response to review of Agricultural Pollution Regulations

AIC Cymru has voiced frustration over the Welsh Government's missed opportunity to deliver urgent changes to the Control of Agricultural Pollution Regulations following a statutory review.

This follows the written statement by the Deputy First Minister and Cabinet Secretary for Climate Change and Rural Affairs, Huw Irranca-Davies MS, on the statutory four-yearly review of the regulations undertaken by Independent Chair, Dr Susannah Bolton, which was also published in March.



Farmers' frustration

AIC Cymru supports the statement from NFU Cymru President Aled Jones: "Farmers have waited four years for this review, so it is very frustrating that the Welsh Government's response today fails to reflect the sheer desperation of farmers in Wales in grappling with the impracticality and complexity of the regulations."

Farmers will be extremely annoyed that nothing has materially changed as a result of the announcement – the existing regulations remain in place – and farmers, already under very significant pressure, now face the very real threat of additional regulation in the future".

AIC Cymru has had long-running concerns about the Control of Agricultural Pollution Regulations. Prior to their introduction, it was clear that the regulations were a blunt, inefficient, bureaucratic and costly instrument with high costs to agriculture and unintended consequences for the environment – that remains our position.

AIC Cymru would welcome better targeting of the regulations and reducing burdens on low-risk farming. However, the recommendation suggests farmers could have to wait up to three years to see this happen! Farmers cannot wait another three years to see change.

Farmers will have little confidence in recommendations to only consider the possibility and explore alternative measures


for closed periods and the 170kg nitrogen per hectare limit. The reality is that this work has already been undertaken and submitted to the Welsh Government in line with the legislative requirements two-and-a-half years ago. The expectation of the report was to see workable changes and adaptations to the regulations being enacted.



AIC joins the Tariff Intelligence Response Group

The Welsh Government, Trade and International Relations Group has convened an industry-wide consultative and market intelligence group to assess industry reaction, uncertainty and impacts of tariffs and market volatility given the current US administration. The group is chaired by Cabinet Minister for Trade and Industry Rebecca Evans.

AIC Cymru welcomes the opportunity to provide input which would largely be on secondary impacts on commodity imports from the US such as Soya and maize as the main examples of potential increased feed costs.




Involvement in the ERAMMP Project

AIC Cymru is actively involved in the Environment & Rural Affairs Mapping and Modelling Programme (ERAMMP) project in Wales. Managed by the UK Centre for Ecology & Hydrology (UKCEH), this project, focuses on the environmental outcomes of the Welsh Glastir (previous environmental program), which has been running for 10 years.

AIC Cymru will participate in the next stakeholder workshop with the ERAMMP and Welsh Government project team. This workshop will explore the drivers and impacts of changes in Wales' rural environment and set priorities for future analysis, research, and monitoring.

It is important that Member business representation is heard, as the ERAMMP programme will monitor and model outcomes of the Sustainable Farming Scheme once it is operational.




AIC Cymru invitation to the Food Standards Agency summer Senedd reception

On behalf of the Food Standards Agency (FSA), Llyr Gruffydd MS, Senedd Regional Member for Plaid Cymru, AIC Cymru is invited to join a Senedd reception marking the FSA's 25th anniversary.

This event will be an opportunity to interact with partners across the food system in Wales, and FSA Wales will launch their latest annual report on food standards within the UK.

This reception is not just a celebration but a chance to network with colleagues from across the food sector, and members of the Senedd. Key attendees include Professor Susan Jebb, the FSA Chair, Dr Rhian Haywood, Welsh Food Advisory Committee Chair, members of the Welsh Food Advisory Committee, and members of the FSA's senior executive team. They will discuss the FSA's work and how it helps resolve the latest issues facing the food sector in Wales. AIC Cymru is delighted to contribute to the debate.



Dates in the diary



AIC Cymru will be present at the Welsh Royal Show during the week of 21 July. We will again be holding an informal drink and get-together for Members and stakeholders on the first day, Monday 21 July, late afternoon in the International Pavilion. More details to follow.



Croeso

Annwyl aelodau AIC Cymru,

Croeso i rifyn gwanwyn/haf 2025 cyfnodolyn AIC Cymru, sy'n dod â'r wybodaeth ddiweddaraf i chi am y materion, y polisiau a'r mewnwelediadau sy'n benodol i amaethyddiaeth Cymru.

Ar ddechrau 2025, profodd Pwyllgor AIC Cymru newidiadau nodedig, gan fod ein cylch gorchwyl yn gofyn am newid swyddi'r cadeirydd a'r is-gadeirydd.

Mae AIC Cymru hefyd yn canolbwyntio ar y Cynllun Ffermio Cynaliadwy, sy'n mynd trwy ddatblygiadau hanfodol. Mae rheolau a lefelau taliadau'r cynllun yn ganolog i bolisi amaethyddol Cymru, ac mae cyfarfodydd diweddar wedi dangos cynnydd ar ôl i gamau gweithredu dadleuol gael eu dileu. Mae disgwyl y bydd sioeau teithiol Llywodraeth Cymru a chydweithrediad y diwydiant yn gweithio i gynyddu'r derbyniad i'r cynllun.

Yn y rhifyn hwn fe welwch yr wybodaeth ddiweddaraf am y Cynllun Ffermio Cynaliadwy, datblygiadau polisi, digwyddiadau, a gweithgareddau AIC Cymru.



Michael Muncey
AIC Cymru Policy Manager

Mae arweinyddiaeth Mr Davies yn mynd i gryfhau ymhellach genhadaeth AIC Cymru i weithio i gefnogi amaethyddiaeth fodern, gynaliadwy a masnachol a chynrychioli busnesau yn niwydiant cyflenwi amaethyddol Cymru.

Parhad ar dudalen 2 

Newidiadau i arweinyddiaeth Pwyllgor AIC Cymru

Ar ddechrau 2025 bu newidiadau i Bwyllgor AIC Cymru gan fod ein cylch gorchwyl yn gofyn am olyniaeth yn swyddi'r cadeirydd ac is-gadeirydd. Mae amser yn hedfan, o ystyried y cylchdro dwy flynedd a sefydlu AIC Cymru.

Mae AIC Cymru wedi ethol Alister Davies yn gadeirydd newydd. Cafodd ei ethol gan yr aelodau yng nghyfarfod cyffredinol blyneddol AIC Cymru ar 30 Ionawr 2025 a bydd yn gwasanaethu am ddwy flynedd.

Mr Davies yw Rheolwr Masnachol Cig Eidion a Defaid ForFarmers ac mae'n olynu Gareth Davies, cyn-Brif Weithredwr grŵp Wynnstay, a gwblhaodd ei gyfnod fel cadeirydd yn ddiweddar.



Alister Davies (chwith) with Micheal Muncey (iawn).

Dyweddodd Mr Davies am ei benodiad: "Mae'n anrhydedd i mi ymgymryd â rôl Cadeirydd AIC Cymru ac rwy'n edrych ymlaen at barhau â'n gwaith hanfodol ar ran diwydiant cyflenwi amaethyddol Cymru. Hoffwn estyn fy niolch diffuant i Gareth Davies am ei arweinyddiaeth a'i ymroddiad. Mae ei rôl allweddol wrth sefydlu AIC Cymru wedi sicrhau bod gan fusnesau cyflenwi amaethyddol Cymru lais cryfach ac unedig mewn tirwedd amaethyddol sy'n esblygu'n barhaus." Yn ogystal, mae Claire Ebdy o Northwest Farmers yn ymuno â'r pwyllgor.



Michael Muncey (chwith) with Gareth Davies (iawn)

Y Cynllun Ffermio Cynaliadwy

O ddiddordeb pennaf i fusnesau sy'n aelodau o AIC Cymru yw datblygiad parhaus y Cynllun Ffermio Cynaliadwy. Rheolau'r cynllun a lefelau taliadau yw'r newid mwyaf i bolisi amaethyddol Cymru o hyd ac maent ar flaen meddyliau undebau ffermwyr a busnesau lle mae'r angen i gael polisi'n "gywir" yn hollol hanfodol. I'r perwyl hwn, roedd AIC Cymru wrth ei fodd i gael cwmni Mark Alexander, sy'n arwain y gwaith ar y Cynllun Ffermio Cynaliadwy ar ran Llywodraeth Cymru, yn ein cyfarfod diwethaf ym mis Ebrill i gael yr wybodaeth ddiweddaraf ar ffurf sesiwn holi ac ateb anffurfiol.

Ar hyn o bryd, y tu ôl i'r llenni, mae cyfarfodydd yn parhau i fynd rhagddynt yn ddi-oed ac maent yn fwy cynhyrchiol a chydweithredol ers i'r cam gweithredu cyffredinol mwyaf dadleuol, sef gorchuddio 10% o dir amaethyddol â choed, gael ei ddileu. Mae'r 17 o gamau gweithredu cyffredinol yn y cynllun bellach wedi gostwng i 12. Yn ogystal, mae'r gofyniad o dan y cynllun i fod â thir amaethyddol cymwys bellach wedi'i ostwng i ddwy hectar, a hynny drwy un ffurflen gais unigol. Bydd modd dangos cydymffurfiaeth â chamau drwy dicio blychau, gan sicrhau bod

canlyniadau'n cael eu cyflawni yn hytrach na bod angen cyflwyno tystiolaeth.

Gobeithio y bydd yr asesiad effaith economaidd parhaus yn cael ei gyhoeddi ym mis Mehefin. Y nod felly yw cyfathrebu asesiad effaith economaidd, methodoleg y cynllun, yn gyffredinol yn ogystal ag yn ddewisol ac yn gydweithredol, a methodoleg a chyfraddau talu. Rhaid cydlynu hyn, ei ddarparu yn Gymraeg ac yn Saesneg, a bydd angen cefnogaeth gan undebau ffermwyr os yw'r cynllun i gael ei dderbyn.

Mae Llywodraeth Cymru yn bwriadu cyfathrebu hyn ar ffurf sioeau teithiol. Awgrymodd AIC gyfarfod cyfathrebu/ Teams ar gyfer y sector cyflenwi amaethyddol gan y gallwn fod yn gyfrwng cyfathrebu cadarnhaol os byddwn yn derbyn y cynllun yn eang. Credwn y gellir cyflawni canlyniadau gwell gan fod gennym gynghorwyr dibynadwy sy'n ymweld â ffermydd, yn agronomegwyr a chynghorwyr ar borthiant. Awgrymwyd taflen ar y Cynllun Ffermio Cynaliadwy hefyd ar gyfer y diwydiant.

Y disgwyl yw y bydd cyhoeddiadau'n cael eu gwneud yn ystod Sioe Frenhinol Cymru ym mis Gorffennaf.



O'r chwith, Richard Lewis, Vice Chair AIC Cymru; David Evans; Claire Ebdy; Gareth Davies; Alister Davies, Chair AIC Cymru; Dan Downes; Mark Alexander, Deputy Director Land Reform Welsh Government; Ed Barker, AIC Policy Manager; Tom Edwards; Gary Davies, and Chris Thomas.

AIC Cymru yn 'rhwystredig' am ymateb Llywodraeth Cymru i'r adolygiad o reoliadau llygredd amaethyddol

Mae AIC Cymru wedi mynegi rhwystredigaeth ynghylch cyfle a gollwyd gan Lywodraeth Cymru i gyflawni newidiadau brys i'r rheoliadau rheoli llygredd amaethyddol yn dilyn adolygiad statudol.

Mae hyn yn dilyn y datganiad ysgrifenedig gan y Dirprwy Brif Weinidog ac Ysgrifennydd y Cabinet dros Newid Hinsawdd a Materion Gwledig, Huw Irranca-Davies AS, ar yr adolygiad statudol pedair blynedd o'r rheoliadau a gynhaliwyd gan y cadeirydd annibynnol, Dr Susannah Bolton, a gyhoeddwyd hefyd ym mis Mawrth.



Rhwystredigaeth ffermwyr

Mae AIC Cymru yn cefnogi datganiad Llywydd NFU Cymru, Aled Jones: "Mae ffermwyr wedi aros pedair blynedd am yr adolygiad hwn, felly mae'n rhwystredig iawn nad yw ymateb Llywodraeth Cymru heddiw'n adlewyrchu anobaith llwyr ffermwyr yng Nghymru wrth ymdopi ag anymarferoldeb a chymhlethdod y rheoliadau.

Bydd ffermwyr yn hynod flin nad oes dim wedi newid yn sylweddol o ganlyniad i'r cyhoeddiad – mae'r rheoliadau presennol yn parhau i fod ar waith – ac mae ffermwyr, sydd eisoes dan bwysau sylweddol iawn, bellach yn wynebu bygythiad gwirioneddol o reoleiddio ychwanegol yn y dyfodol".

Mae gan AIC Cymru bryderon ers tro byd ynghylch y rheoliadau rheoli llygredd amaethyddol. Cyn eu cyflwyno, roedd yn amlwg bod y rheoliadau yn offeryn di-fin, aneffeithlon, biwrocraidd a chostus gyda chostau uchel i amaethyddiaeth a chanlyniadau anfwriadol i'r amgylchedd. Dyna ein safbwynt o hyd.

Byddai AIC Cymru yn croesawu targedu'r rheoliadau'n well a lleihau beichiau ar ffermio risg isel. Fodd bynnag, mae'r argymhellid yn awgrymu y gallai fod yn rhaid i ffermwyr aros hyd at dair blynedd i weld hyn yn digwydd. Ni all ffermwyr aros tair blynedd arall i weld newid.

Ychydig o hyder fydd gan ffermwyr mewn argymhellion i ystyried y posibilrwydd yn unig ac archwilio mesurau amgen ar gyfer cyfnodau caeedig a'r terfyn o 170kg o nitrogen yr hwn eisoes wedi'i wneud a'i gyflwyno i

Lywodraeth Cymru yn unol â'r gofynion deddfwriaethol ddwy flynedd a hanner yn ôl. Y disgwyliad yn yr adroddiad oedd y byddai newidiadau ac addasiadau ymarferol i'r rheoliadau'n cael eu gweithredu.



AIC yn ymuno â'r grŵp ymateb i wybodaeth am dariffau

Mae Grŵp Masnach a Chysylltiadau Rhyngwladol Llywodraeth Cymru wedi cynnull grŵp ymgynghorol ar draws y diwydiant sy'n gallu rhoi gwybodaeth am y farchnad, i asesu ymateb ac ansicrwydd yn y diwydiant, ac effeithiau tariffau ac anwadlwrwydd y farchnad o ystyried gweinyddiaeth bresennol yr Unol Daleithiau. Cadeirydd y grŵp yw Rebecca Evans AS, Gweinidog y Cabinet dros Fasnach a Diwydiant.

Mae AIC Cymru yn croesawu'r cyfle i roi mewnbyn a fyddai'n ymwneud yn bennaf ag effeithiau eilaidd ar fewnforion nwyddau o'r Unol Daleithiau fel soia ac indrawn, sef y prif enghreifftiau o gostau cynyddol posibl mewn porthiant.




Cymryd rhan ym mhrosiect ERAMMP

Mae AIC Cymru yn cymryd rhan weithredol ym mhrosiect Rhaglen Monitro a Modelu Materion Gwledig a'r Amgylchedd (ERAMMP) yng Nghymru. Wedi'i reoli gan Ganolfan Ecoleg a Hydroleg y DU (UKCEH), mae'r prosiect hwn yn canolbwyntio ar ganlyniadau amgylcheddol Glastir Cymru (y rhaglen amgylcheddol flaenorol), sydd wedi bod ar waith ers 10 mlynedd.

Bydd AIC Cymru yn cymryd rhan yn y gweithdy rhanddeiliaid nesaf gyda thîm prosiect ERAMMP a Llywodraeth Cymru. Bydd y gweithdy hwn yn archwilio'r ffactorau sy'n ysgogi ac effeithiau newidiadau yn amgylchedd gwledig Cymru ac yn gosod blaenoriaethau ar gyfer dadansoddi, ymchwilio a monitro yn y dyfodol.

Mae'n bwysig bod llais busnesau sy'n aelodau yn cael ei chlywed, gan y bydd rhaglen ERAMMP yn monitro ac yn modelu canlyniadau'r Cynllun Ffermio Cynaliadwy unwaith y bydd ar waith.



Gwahoddiad AIC Cymru i dderbyniad haf yr Asiantaeth Safonau Bwyd yn y Senedd


Ar ran yr Asiantaeth Safonau Bwyd, mae Llyr Gruffydd AS, Aelod Rhanbarthol o'r Senedd dros Blaid Cymru yn gwahodd AIC Cymru i ymuno â derbyniad yn y Senedd i nodi pen-blwydd yr ASB yn 25 oed.

Bydd y digwyddiad hwn yn gyfle i ryngweithio â phartneriaid ar draws y system fwyd yng Nghymru a bydd ASB Cymru yn lansio eu hadroddiad blynyddol diweddaraf ar safonau bwyd yn y DU.

Nid dathliad yn unig yw'r derbyniad hwn ond cyfle i rwydweithio â chydweithwyr o bob cwr o'r sector bwyd ac Aelodau'r Senedd. Ymhlith y prif fynychwyr bydd yr Athro Susan Jebb, Cadeirydd yr ASB, Dr Rhian Haywood, Cadeirydd Pwyllgor Cyngori ar Fwyd Cymru, aelodau o Bwyllgor Cyngori ar Fwyd Cymru, ac aelodau o uwch dîm gweithredol yr ASB. Byddant yn trafod gwaith yr ASB a sut mae'n helpu i ddatrys y problemau diweddaraf sy'n wynebu'r sector bwyd yng Nghymru. Mae AIC Cymru wrth ei fodd yn cyfrannu at y drafodaeth.



25
MLYNEDD



Dyddiadau yn y dyddiadur



Bydd AIC Cymru yn bresennol yn Sioe Frenhinol Cymru yn ystod yr wythnos yn dechrau 21 Gorffennaf. Byddwn unwaith eto'n cyfarfod yn anffurfiol dros ddiod ag aelodau a rhanddeiliaid ar y diwrnod cyntaf, sef dydd Llun, 21 Gorffennaf, yn hwyr yn y prynhawn yn y Pafiliwn Rhyngwladol. Mwy o fanylion i ddilyn.

